Promoting improvements in policing to make everyone safer

## Mae'r llu'n dweud...

Mae Heddlu De Cymru'n darparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl yn cwmpasu 42% o boblogaeth Cymru ag oddeutu 49% o'r holl droseddu yng Nghymru. Yn ystod 2015/16 derbyniodd y Llu gyfanswm o 1,053,095 o alwadau a chofnododd 98,318 o droseddau, yn golygu mai'r 7fed llu prysuraf ydyw (y tu allan i Lundain) yng Nghymru a Lloegr o ran troseddau am bob 1,000 o'r boblogaeth. Yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2016 mae'r Llu wedi gweld 33,745 o arestiadau, 39,294 o ddigwyddiadau, 181,266 o alwadau argyfwng a 449,980 o alwadau nad oeddynt yn argyfwng.

Mae'r Llu'n datblygu partneriaethau fwyfwy agos er mwyn diogelu pobl sy'n agored i niwed trwy ganolbwyntiau amlasiantaeth. Hefyd mae'r Llu wedi cyflwyno canolfan â thri gwasanaeth gyda dau Wasanaeth Tân ac Achub ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r Llu'n gweithio gyda lluoedd a phartneriaid eraill i gyflenwi gwasanaethau ar y cyd i gymunedau De Cymru.

Cyflenwir plismona yn Ne Cymru gan 2,956 o swyddogion, 1,873 o staff a 406 o swyddogion PCSO, â chyllideb o £259 miliwn.

Mae ardal y llu'n cynnwys 64 o'r 100 o gymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru ac mae'n ardal amrywiol yn cynnwys heriau plismona gwledig, arfordirol a threfol gan gynnwys y ddwy ddinas â'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru, Abertawe a'r Brifddinas, Caerdydd, sy'n denu dros 18 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn ac sy'n gartref i dros 94,000 o fyfyrwyr.

Mae plismona prifddinas yn cyflwyno ei alwadau ei hunan ac mae presenoldeb Llywodraeth Cymru'n galw am uned blismona benodedig. Er gwaethaf y galw cynyddol nid yw'r Llu'n derbyn cyllid oherwydd ei statws prifddinas.

Heddlu De Cymru yw'r llu strategol yng Nghymru sy'n cyflenwi nid yn unig wasanaeth lleol ond hefyd yn darparu cymorth ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol mawr y tu allan i ardal y Llu. Mae'r Llu'n plismona oddeutu 600 o ddigwyddiadau'r flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol, ymweliadau brenhinol a gwrthdystiadau wrth blismona economïau nos Caerdydd ac Abertawe hefyd. Ym mis Mai 2017 bydd Caerdydd yn croesawu Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA.

**Ymwadiad: mae'r datganiad uchod wedi'i baratoi gan Heddlu De Cymru. Nid yw'r barnau a'r wybodaeth arno o angenrheidrwydd yn cyfateb i farn yr HMIC.**

## Mae HMIC yn dweud...

Mae Heddlu De Cymru'n darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Gorllewin, De a Chanol Morgannwg. Mae ardal yr heddlu'n cwmpasu 803 o filltiroedd sgwâr ag oddeutu 150 o filltiroedd o forlin yn ne Cymru. Er bod rhai ardaloedd mwy cefnog, mae gan Dde Cymru lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 1.3 miliwn o bobl yn byw'n bennaf yn y canolfannau trefol sy'n cynnwys dinasoedd Caerdydd ac Abertawe heblaw am drefi llai. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd uchel sy'n ymweld â, yn cymdeithasu yn, yn cymudo i, neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys gorsafoedd rheilffordd pwysig, meysydd awyr a phorthladdoedd môr.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd bach a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OA). Diffiniwyd y rhain gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn casglu ynghyd pobl â nodweddion tebyg ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwysedd y boblogaeth mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 20,166 o hectarau, a mae'r un lleiaf yn cynnwys llai na 0.02 hectar. Mae maes pêl-droed yn cynnwys oddeutu 0.75 hectar.

Mae 4,170 o ardaloedd OA yng Ngogledd Cymru â maint cyfartalog o 50 o hectarau sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87 o hectarau. Er bod y mwyafrif (62 y cant) o ardaloedd OA yn Ne Cymru'n gymharol fach ar lai na 10 hectar, mae cyfran fach (wyth y cant) yn eithafol fawr o ran maint (dros 100 o hectarau) sy'n dangos y cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Canolbwyntir yr ardaloedd OA lleiaf yng Nghaerdydd ac Abertawe, gyda'r gwasgariad mwyaf ar draws yr ardaloedd gwledig â phoblogaeth fwy gwasgaredig.

Y fantais o ddadansoddi ar y lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobol. Mae gwahaniaethau o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol pobl sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd OA yn arwain at ymddygiadau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr megis y cyfrifiad, data pwynt diddordeb yr Arolwg Ordnans (OS) a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda'r London School of Economics i ddefnyddio technegau econofetrig i roi model ystadegol a rhagweld lefel y galwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Trwy ddefnyddio data o ddigwyddiadau'r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidion) a dynnir o

ddata cyfrifiad, data pwynt diddordeb OS a setiau data llai eraill ar gyfer pob OA, mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA a phenderfynu pa mor heriol y bydd pob OA yn debygol o fod i'w blismona. Hefyd rydym wedi defnyddio prisiau tai o'r Gofrestrfa Tir fel dangosydd procsi ar gyfer cyfoeth. Mae gan Dde Cymru bris tŷ canolrifol, wedi'i seilio ar yr ardaloedd OA sydd wedi cael trafodyn eiddo o fewn y 12 mis diwethaf, o £135,333 sy'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru a Lloegr (£230,358). Mae gan Dde Cymru 26.4% o'i ardaloedd OA o fewn y 10% isaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol, tra bod 5.6% o'r ardaloedd OA o fewn y 10% uchaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol (ac 1.2% o ardaloedd OA o fewn yr 1% uchaf). Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd mawr o dai gwerth is ac amddifadedd, gyda chyfran lai o gyfoeth sylweddol a phrisiau tai uchel.

Nid yw'r galwadau am wasanaethau heddlu yr un ym mhob ardal o Gymru a Lloegr. Mae ein dadansoddiad wedi datgelu bod nodweddion demograffig-gymdeithasol ardal yn dylanwadu ar y galwadau am wasanaethau heddlu yn yr ardal honno.

Ym mhob heddlu, mae crynhoad o alwadau rhagweledig mewn nifer fach o'i ardaloedd OA. O ystyried Cymru a Lloegr fel cyfanrwydd mae'r 1,811 (1 y cant) mwyaf heriol o'r rhain yn cyfrif am 10.8 y cant o'r holl ddigwyddiadau rhagweledig. Rydym wedi dynodi'r ardaloedd hyn fel rhai sy'n cyflwyno her uchel iawn ac wedi canfod y'u nodweddir gan grynhoad uchel o bobl yn byw, gweithio, cymdeithasu neu deithio yn yr ardal. Mae nodweddion sy'n achosi a/neu ddangos crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, mae'r nodweddion hyn wedi'u cyfuno.

Mae 1.3 y cant o'r ardaloedd o her uchel iawn ar y lefel genedlaethol yn Ne Cymru. Mae'r un y cant o ardaloedd OA sy'n cyflwyno'r her uchaf yn y llu'n cyfrif am 7.4 y cant o ddigwyddiadau rhagweledig De Cymru, a mae'r galwadau rhagweledig hyn yn debygol o ddigwydd mewn dim ond 1.2 y cant o holl ardal y llu.

O fewn De Cymru:

- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ddigwyddiadau yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o droseddu'n is na'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant;

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn digwyddiadau ar y cyfan yn unol â’r lefel genedlaethol o un y cant; a

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn troseddau ar y cyfan yn unol â’r lefel genedlaethol o un y cant;

Fel dangosydd o’r her i’r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Dde Cymru fe wnaethom gyfrifo’r amser teithio a phellter cyfartalog o bwynt canolog ardal y llu i ganol pob un o’r 4,170 o ardaloedd OA. Mae’r cyfrifiadau hyn o bellter ac amser wedi’u seilio ar ddefnyddio’r rhwydwaith ffyrdd o dan amodau a chyflymderau gyrru arferol a maent yn dangos maint yr ardal ac ansawdd ei rhwydwaith ffyrdd.

Mae gan Dde Cymru 115 milltir o draffyrdd a chefnffyrdd; mae’r pellter teithio cyfartalog o 20 milltir (yr hwyaf yw 45 milltir a’r byrraf yw 0.8 filltir) a’r amser teithio cyfartalog o 37 munud o ganol y llu i bob OA yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol priodol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint, amrywiaeth a chymhlethdod De Cymru.

Er y gall y crynhoad o alwadau mewn nifer fach o leoliadau (yn cwmpasu ardal fach iawn) fod yn ddefnyddiol o ran canolbwyntio adnoddau, nid yw’n gyfanrwydd y galw. Mae’r ddarpariaeth o wasanaethau’n ymestyn y tu hwnt i’r ardaloedd hynny sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd lleiaf heriol a mwyaf anghysbell. Mae’r her o ddarparu gwasanaethau trwy gydol De Cymru yn swyddogaeth sy’n cynnwys llawer o bethau gan gynnwys maint a thopograffeg yr ardal, y rhwydwaith ffyrdd a faint o dagfeydd sydd ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae’r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut mae adnoddau’r heddlu’n cael eu trefnu a’u rheoli - er enghraifft ble lleolir swyddogion heddlu a’u patrymau gweithio.